AECOM

AECOM
1 Callaghan Square
Cardiff
CF10 5BT
www.aecom.com

02920 674 600 tel

20th Ebrill 2021

**I Bwy Bynnag a Fynno Wybod – Preswylwyr Llan-faes**

Ein Cyf: 60160078

**Cynllun Lliniaru Llifogydd Pentref Llan-faes**

**Hysbysiad o Dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012**

Annwyl Breswylydd

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn datblygu cynlluniau ar gyfer Cynllun Lliniaru Llifogydd yn Llan-faes. Bydd y cynllun arfaethedig yn mynnu caniatâd cynllunio, ac felly rydym yn ysgrifennu at breswylwyr lleol i roi hysbysiad bod AECOM Ltd., sy'n gweithredu fel Asiant ar ran Cyngor Bro Morgannwg, yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer gweithredu'r cynllun. Bydd y gwaith lliniaru llifogydd yn cynnwys asedau rheoli dŵr wyneb newydd, fel ffosydd a byndiau llifogydd, ynghyd ag ailbroffilio ffyrdd a llinellau cyrbiau newydd ar hyd West Road, Maes y Pentref a Sigingstone Lane.

Rhoddir yr Hysbysiad hwn yn unol ag "Atodlen 1B o Cyhoeddusrwydd ac Ymgynghori Cyn Gwneud Cais am Ganiatâd Cynllunio Hysbysiad o dan Erthyglau 2C a 2D". Bydd unrhyw gais cynllunio dilynol yn cael ei gyhoeddi gan Gyngor Bro Morgannwg fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl). Nodwch na fydd sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i'r hysbysiad hwn yn amharu ar eich gallu i wneud cynrychiolaeth i'r ACLl ar unrhyw gais cynllunio dilynol. Dylech nodi, fodd bynnag, y gall unrhyw sylwadau a gyflwynir gael eu gosod ar y ffeil gyhoeddus.

Rydym ni'n ymgynghori â phartïon yr effeithir arnynt, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, ac felly gofynnwn am eich adborth fel preswylydd lleol cyn i ni gyflwyno'r cais cynllunio. Mae gwefan wedi'i chreu ar gyfer yr ymgynghoriad a gallwch gael rhagor o wybodaeth i'ch helpu i ddeall cynigion y cynllun a sut gallent effeithio arnoch chi.

Gellir gweld cynigion y cynllun ar-lein yn **www.llanmaesfas.co.uk**.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ar y datblygiad arfaethedig lenwi'r adran 'Cysylltu' ar y wefan, neu fel arall ysgrifennu at *AECOM Ltd., Cynllun Lliniaru Llifogydd Pentref Llan-faes, 1 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT*. Rhaid derbyn sylwadau ddim hwyrach na 28 diwrnod o ddyddiad y llythyr hwn.

Pe bai unrhyw ymholiadau penodol gennych, anfonwch neges e-bost i **consultation@llanmaesfas.co.uk**.

Yr eiddoch yn gywir
ar ran **AECOM Limited**



Athan Tzovaras

1 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT, Y Deyrnas Unedig
T +44 (0)29 2005 1605

AECOM
1 Callaghan Square
Cardiff
CF10 5BT
www.aecom.com
02920 674 600 tel

20th April 2021

**To Whom it May Concern – Residents of Llanmaes**

Our Ref: 60160078

**Llanmaes Village Flood Alleviation Scheme**

**Notice Under Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012**

Dear Resident

The Vale of Glamorgan Council is developing proposals for a Flood Alleviation Scheme in Llanmaes Village. The proposed scheme will require planning permission and we are therefore writing to local residents to give notice that AECOM Ltd., acting as Agent on behalf of Vale of Glamorgan Council, is intending to apply for planning permission for the implementation of the scheme. The flood alleviation works will include new surface water management assets, such as ditches and flood bunds, together with road re-profiling and new kerb lines along West Road, the Village Green and Sigingstone Lane.

This Notice is given in accordance with “Schedule 1B of Publicity and consultation Before Applying for Planning permission Notice under Articles 2C and 2D”. Any subsequent planning application will be published by the Vale of Glamorgan Council as the Local Planning Authority (LPA). Please note that comments received in response to this notice will not prejudice your ability to make representation to the LPA on any subsequent planning application. You should however note that any comments submitted may be placed on the public file.

We are consulting with affected parties, the general public and other stakeholders and are therefore seeking your feedback as a local resident before we submit the planning application. A consultation website has been created where you can find further information to help you understand the scheme proposals and how they may affect you.

The scheme proposals can be viewed online at www.llanmaesfas.co.uk.

Anyone wishing to comment on the proposed development should complete the ‘Get In Touch’ section of the website or alternatively write to *AECOM Ltd., Llanmaes Village Flood Alleviation Scheme, 1 Callaghan Square, Cardiff, CF10 5BT*. Comments must be received no later than 28 days from the date of this letter.

Should you have any specific queries please email consultation@llanmaesfas.co.uk.

Yours faithfully
for **AECOM Limited**



Athan Tzovaras
1 Callaghan Square, Cardiff, CF10 5BT, United Kingdom
T +44 (0)29 2005 1605